

CAIN, santes a gwryf (fl. diwedd y 5ed ganrif a dechrau'r 6ed).

Enw: Cain

Rhiant: Brychan ap Anlach

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: santes a gwryf

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Hywel David Emanuel

Yn ôl y 'De Situ Brecheniauc' ([Wade-Evans](#), *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, 313-5) a'r 'Cognacio Brychan' (op. cit., 315-8), un o ferched bucheddol [Brychan Brycheiniog](#) oedd Cain.

Ceir y traddodiad amdani ym 'muchedd' y santes Gain, crynodeb a gyfansoddwyd tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg gan John o Teignmouth allan o ryw lawysgrif anhysbys. Ni chwenychodd Cain y bywyd priodasol, ac oherwydd hynny rhoddwyd iddi yr enw 'Keynwiri' ('Cain Wryf'). Ymadawodd â'i bro enedigol, a gwnaeth ei chartref mewn lle a adwaenir heddiw fel Keynsham yng Ngwlad yr Haf; ac yno bu fyw bywyd meudwy. Wedi llawer o flynyddoedd, dychwelodd i Ddeheudir Cymru gan sefydlu mynachlog mewn lle nad oes ddim sicrwydd amdano ond y dywedir mai Llangeinwr yn Sir Forgannwg yw. Dywed y 'fuchedd' mai [Cadog Sant](#) a'i claddodd hi.

Y santes Gain yw nawddsant Llangeinwr, a chedwir ei henw ar gof yn Llangain a Chapel Cain Wry (plwyf Tal-y-llychau) yn Sir Gaerfyrddin, yn Llangeinwen ym Môn, ac, efallai, ym Machen yn sir Fynwy. Ceir eglwysi wedi eu henwi arni hefyd yn swydd Henffordd, Gwlad yr Haf, a Chernyw. Fel rheol dehlir ei gyl ar 8 Hydref.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

The Lives of the British Saints, ii, 52-5

Horstman (gol.), *Nova legenda Anglie as collected by John of Tynemouth, John Capgrave, and others, and first printed, with new lives, now re-edited with fresh material from MS and printed sources by C. Horstman* (1901), ii, 102-4

Acta Sanctorum Bollandiana (1643), lii, 275-7

G. H. Doble, *S. Nectan, S. Keyne, and the Children of Brychan in Cornwall* (1930), 34-48

Wade-Evans, *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Caerdydd 1944), 313-8

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cain ach Brychan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q4218975](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.